ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

04/12/2020

Annwyl Riant neu Ofalwr,

Ynghylch: Cyswllt ag achos a gadarnhawyd o COVID-19 ym mlwyddyn 8 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Mae gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru yn olrhain pawb sydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19 (y Coronafeirws).

Nodwyd bod eich plentyn yn **gyswllt o achos a gadarnhawyd o COVID-19** a bydd nawr angen iddo/i **hunanynysu am 14 diwrnod o'r 02/12/2020.** Drwy nodi cysylltiadau (**pob disybl ym mwyddyn 8 yn unig**) a gofyn iddynt hunanynysu am 14 diwrnod, byddwn yn lleihau'r risg bosibl o ledaenu COVID-19 o'r cysylltiadau hynny i'w teulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach.

Mae'r cyngor ar hunanynysu yn ei **gwneud yn ofynnol i'ch plentyn aros gartref**, peidio mynd allan i wneud ymarfer corff, ymweld â siopau, teulu na ffrindiau, na mynd i fannau cyhoeddus eraill. Peidiwch â gwahodd pobl i'ch tŷ. Ceir rhagor o wybodaeth am hunanynysu yn y ddolen ar waelod y llythyr hwn.

Os bydd eich plentyn yn aros yn iach ni fydd angen i aelodau eraill yr aelwyd ynysu a gallant barhau â'u gweithgareddau arferol. Os bydd eich plentyn yn dal yn iach ar ddiwedd y cyfnod hunanynysu o 14 diwrnod, **gall ddychwelyd i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe a'i weithgareddau arferol eraill ar yr 16/12/20.**

Ni ellir lleihau'r cyfnod o 14 diwrnod o hunan-ynysu trwy gael prawf. Mae'r prawf ar gyfer pobl sy'n datblygu symptomau yn unig.
Er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19, mae yna bethau y gall pawb yn eich teulu eu gwneud i helpu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- golchi eich dwylo â dŵr a sebon yn aml, am o leiaf 20 eiliad
- defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael
- golchi eich dwylo cyn gynted ag y byddwch gartref
- gorchuddio eich ceg a'ch trwyn â hances neu eich llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch yn peswch neu'n tisian
- rhoi hancesi yn y bin ar unwaith ar ôl eu defnyddio a golchi eich dwylo wedyn

Cadwch lygad am symptomau COVID-19 yn eich plentyn, sef:

- Peswch newydd neu gyson
- Tymheredd uchel
- Colli synnwyr arogleuo neu synnwyr blasu, neu newid iddynt

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw rai o'r symptomau hyn, hyd yn oed os na fyddant yn ddifrifol:

- Trefnwch brawf iddo drwy ffonio 01639 862757 neu 119 neu drwy fynd i'r porth ar-lein: https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test
- Rhowch wybod i **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** ei fod yn teimlo'n anhwylus gyda symptomau COVID-19 a'ch bod wedi gofyn am brawf
- Dylai eich plentyn barhau i hunanynysu
- Dylai pawb arall sydd ar yr aelwyd ynysu am 14 diwrnod o'r adeg y datblygodd eich plentyn symptomau
- Peidiwch ag ymweld â meddygfa, fferyllfa nac ysbyty ond os bydd angen cyngor meddygol arnoch ffoniwch y GIG ar 111 neu ffoniwch eich meddyg teulu; os bydd argyfwng meddygol ffoniwch 999
- Os bydd angen cyngor meddygol arnoch ar gyfer symptomau COVID-19 neu am reswm arall, dywedwch wrth y gweithiwr gofal iechyd bod eich plentyn yn gyswllt achos o COVID-19 a'i fod yn hunanynysu
- Dilynwch y cyngor a roddir pan fydd eich plentyn yn cael canlyniadau ei brawf

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu ar gael yma https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws
Mae rhagor o wybodaeth am symptomau a hunanynysu ar gael yma https://llyw.cymru/gwiriad-olrhain-cysylltiadau-dyddiol-symptomau-canllawiau-chymorth
I gael gwybodaeth gyffredinol am COVID-19 https://llyw.cymru/amddiffyn-eich-hun-ag-eraill-rhag-y-coronafeirws
Gall gwiriwr symptomau ar-lein COVID-19 ddweud wrthych a oes angen help meddygol arnoch a'ch cynghori ynghylch beth i'w wneud https://llyw.cymru/oes-angen-help-meddygol-arnoch-am-y-coronafeirws

Bydd eich plentyn yn gallu ymuno a'i holl wersi gan athrawon Bryn Tawe ar lwyfan Teams am y cyfnod hunan ynysu. A wnewch chi sicrhau bod eich plentyn yn mynychu ei wersi os gwelwch yn dda? Os oes unrhyw anhawster e.e. angen benthyg teclyn digidol neu gysylltiad gyda'r wê, cysylltwch gyda Mrs Nerys Vaughan (VaughanN9@hwbcymru.net) neu Mr Omar Bechar (BecharO@hwbcymru.net) i wneud trefniadau. Cysylltwch gyda ni os oes unrhyw gwestiwn pellach.

Cysylltwch gyda ni os oes unrhyw gwestiwn pellach.

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales